

Y Cyngor Nursio a Bydwreigiaeth

Adroddiad Blynyddol ar Addasrwydd i Ymarfer 2013–2014

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Adroddiad Blynyddol ar Addasrwydd i Ymarfer 2013–2014

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50 (2) o
Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd
gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

(h) Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2004)

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol ac asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a nodi teitl y ddogfen. Lle y nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid cael caniatâd priod ddeiliad yr hawlfraint.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i'r Nursing and Midwifery Council, 23 Portland Place, London W1B 1PZ.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.nmc-uk.org

Print ISBN 9781474110815

Gwe ISBN 9781474110822

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 19091402 10/14 43515 19585

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Contents

Rhagair	2
Cyflwyniad	3
Pwy ydym a'r hyn a wnawn	3
Gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth.....	3
Goruchwyllo ein gwaith	3
Diogelu'r cyhoedd	4
Ein cofrestr	4
Addasrwydd i ymarfer.....	4
Pryd y gallwn ac na allwn ymchwilio.....	5
Y camau a gymerir os bydd nyrs neu fydwraig yn anaddas i ymarfer	5
Tynnu enw oddi ar y gofrestr o wirfodd	6
Cipolwg ar ein gwaith yn 2013–2014	7
Sut y caiff pryderon eu codi?	9
Sut rydym yn ymdrin â phryderon a godir	12
Proses addasrwydd i ymarfer	14
Asesiad cychwynnol	15
Natur yr honiadau a atgyfeiriwyd atom	17
Gweithredu ar fyrder er mwyn diogelu'r cyhoedd.....	18
Ein perfformiad yn 2013–2014	18
Canlyniadau gorchmynion interim	19
Ymchwiliadau.....	20
Ein perfformiad yn 2013–2014	20
Canlyniadau'r Pwyllgor Ymchwilio	21
Dyfarniadau	22
Ein perfformiad yn 2013–2014	22
Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd a'r Pwyllgor Iechyd	24
Apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau.....	26
Adfer enw nyrs neu fydwraig i'r gofrestr.....	26
Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses Addasrwydd i Ymarfer 2013–2014	27
Ffocws ar gyfer y dyfodol.....	29

Rhagair

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn bodoli i ddiogelu'r cyhoedd. Gwnawn hyn drwy sicrhau mai dim ond y rheini sy'n bodloni ein gofynion a gaiff ymarfer fel nyrs neu fydwraig yn y DU. Rydym yn gweithredu os codir pryderon ynghylch addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r ffordd rydym wedi ymdrin â phryderon a godwyd ynghylch addasrwydd i ymarfer nyrsys a bydwagedd yn ystod 2013-2014. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr ag *Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2013-2014 a chynllun strategol 2014-2017*, sy'n cwmpasu'r holl waith rydym yn ei wneud i ddiogelu'r cyhoedd.

Ar 31 Mawrth 2014, roedd 680,858 o nyrsys a bydwagedd cofrestredig yn y DU. Mae'r mwyafrif helaeth o nyrsys a bydwagedd yn ymarfer yn ddiogel. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y nifer fach iawn, tua 0.7 y cant, a ddaeth i'n sylw o ganlyniad i bryder amdanynt. Cafodd cyfran hyd yn oed yn llai - 0.2 y cant - ryw fath o sancsiwn yn dilyn ein hymchwiliadau. Rydym yn buddsoddi'n sylweddol mewn gwelliannau i'n swyddogaethau addasrwydd i ymarfer - caiff 78 y cant o'n cyllideb bellach ei wario yn y maes hwn. Rydym wedi gwella adnoddau a gallu ein staff; rydym bellach yn ymchwilio i'r mwyafrif o'n hachosion yn fewnol; rydym wedi cynyddu'r nifer o aelodau panel; ac rydym yn cynnal tua 30 o gyfarfodydd a gwrandawiadau bob dydd er mwyn datrys achosion.

Rydym yn falch bod y buddsoddiad hwn yn cyflawni canlyniadau. Yn ystod 2013-2014, gwnaethom ddatrys dros 1500 o'n hachosion hynaf a mwyafrif cymhleth a gwnaethom leihau'r amser a gymerir i gwblhau ymchwiliadau yn sylweddol. Rydym ar y trywydd cywir i gyflawni ein targed i drosglwyddo achosion i'r cam dyfarnu yn gynt erbyn mis Rhagfyr 2014. Yn bwysig ddigon, rydym yn parhau i ddiogelu'r cyhoedd yn yr achosion mwyafrif difrifol drwy roi gorchmynion interim ar waith o fewn pedair wythnos mewn 84 y cant o achosion tra bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo.

Fel sy'n wir am ein holl waith, mae adroddiad Francis wedi dylanwadu ar ein swyddogaeth addasrwydd i ymarfer, felly hefyd yr ymrwymadau rydym wedi'u gwneud i ddysgu oddi wrth y canfyddiadau a'u cymhwyso. Croesawyd addewid y Llywodraeth yn dilyn adroddiad Francis i foderneiddio ein fframwaith cyfreithiol ac rydym yn siomedig na fydd hyn yn digwydd yn ystod oes y senedd bresennol. Mae angen gwneud newidiadau deddfwriaethol mawr er mwyn ein galluogi i ddiweddarau ein prosesau a darparu'r ymateb ystwyth y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl. Yn y cyfamser, rydym yn benderfynol o wneud popeth o fewn ein gallu i wella. Rydym yn gweithio gyda'r Adran Lechyd i roi newidiadau ar waith o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol er mwyn i ni allu cyflwyno archwilwyr achosion. Dylai gweithredu'r newid hwn yn 2015 ein helpu i wella cysondeb a chyflymder y broses o wneud penderfyniadau mewn achosion.

Rydym hefyd yn chwilio am ffyrdd o ddarparu adnodd rhanbarthol er mwyn gweithio'n agosach gyda chyflogwyr ac arweinwyr ym maes nyrsio a bydwreigiaeth ar lawr gwlad i sicrhau bod yr achosion cywir yn ein cyrraedd. Rydym wedi dechrau gwella'r cymorth a roddwn i dystion yn ein hachosion ac rydym yn ceisio gwella ein gwasanaeth i gwsmeriaid. Ynghyd â ffocws diflino ar ddatrys achosion yn gynt a gwella ansawdd ac effeithlonrwydd ein gwaith, y rhain fydd ein blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mark Addison CB
Cadeirydd
CNB
9 Hydref 2014

Jackie Smith
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
CNB
9 Hydref 2014

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn egluro'r gwaith a wnawn i ddiogelu'r cyhoedd rhag nyrsys a bydwagedd cofrestredig y mae eu haddasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol. Mae'n egluro:

- pwy ydym a'r hyn a wnawn;
- rydym yn ymdrin â phryderon a godir ynghylch nyrsys neu fydwagedd;
- nifer yr achosion yr edrychwyd arnynt, pa fath o achosion oeddent a beth a ddigwyddodd yn yr achosion hynny;
- y camau rydym yn eu cymryd i wella'r ffordd rydym yn gwneud y gwaith hwn.

Pwy ydym a'r hyn a wnawn

Ni yw'r rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth annibynnol ar gyfer y DU.¹ Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd drwy sicrhau bod pob nyrs a bydwraig sy'n ymarfer yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth, yr iechyd da a'r cymeriad da i wneud ei gwaith yn ddiogel ac yn effeithiol.

Er mwyn gwneud hyn, mae angen:

- ei gwneud yn ofynnol i bob nyrs a bydwraig sy'n ymarfer yn y DU gofrestru â ni;
- pennu safonau addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad fel y gall nyrsys a bydwagedd ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel yn gyson drwy gydol eu gyrfaedd;
- sicrhau bod nyrsys a bydwagedd yn diweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth ac yn cynnal ein safonau proffesiynol; and
- cael prosesau clir a thryloyw i ymchwilio i nyrsys a bydwagedd nad ydynt yn cyrraedd ein safonau - ein gwaith addasrwydd i ymarfer.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ein gwaith addasrwydd i ymarfer. Efallai y bydd hefyd yn ddefnyddiol i chi ddarllen *Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2013–2014 a chynllun strategol 2014-2017*, sy'n cwmpasu'r holl waith rydym yn ei wneud i ddiogelu'r cyhoedd. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar ein gwefan yn www.nmc-uk.org/About-us/Annual-reports-and-statutory-accounts.

Gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys dadansoddiad o'r data a ddelir gennym am achosion addasrwydd i ymarfer, ar gael fel rhan o'n *Adroddiad blynyddol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth 2013–2014* yn www.nmc-uk.org.

Goruchwyllo ein gwaith

Goruchwylir ein gwaith gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bob blwyddyn, mae'r Awdurdod yn edrych ar sawl agwedd ar ein gwaith.

- Mae'n adolygu ein perfformiad cyffredinol ac yn cyflwyno adroddiad ar hyn i'r Senedd.

¹ Sefydlwyd yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2011 OS 2002/253 (fel y'i diwygiwyd)

- Gall archwilio sampl o'r achosion addasrwydd i ymarfer a gaewyd gennym ar gam cynnar.
- Mae'n adolygu'r holl benderfyniadau dyfarnu terfynol mewn achosion addasrwydd i ymarfer. Os bydd o'r farn nad yw penderfyniad yn ddigon llym, gall ofyn i'r Uchel Lys, neu'r Llysoedd Sesiwn yn yr Alban, ystyried yr achos. Gall hefyd roi adborth ar ein prosesau dyfarnu a'n penderfyniadau ar ffurf pwyntiau dysgu.

Mae adroddiadau'r Awdurdod ar ein gwaith ar gael yn www.professionalstandards.org.uk/regulators/overseeing-regulators.

Rydym yn atebol i'r Senedd, drwy'r Cyfrin Gyngor, am yr hyn a wnawn. Mae'r Pwyllgor Dethol ar lechyd yn cyflawni ei rôl ar ran y Senedd ac yn craffu ar ein gwaith mewn gwrandawriad cyhoeddus blynyddol. Mae'r Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad ar ei ganfyddiadau a'n hymateb i'w argymhellion. Mae'r rhain ar gael yn www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/healthcommittee/.

Diogelu'r cyhoedd

Ein cofrestr

Wrth wraidd popeth a wnawn i ddiogelu'r cyhoedd mae cadw'r gofrestr o nyrsys a bydwragedd a gaiff ymarfer yn y DU yn gyfreithlon. Dim ond y sawl sy'n cyrraedd ein safonau a all gael eu cynnwys ar y gofrestr, neu aros arni. Mae statws cofrestru yn rhoi sicrwydd i gleifion, cyflogwyr a'r cyhoedd bod unigolyn yn gwbl gymwysedig, ei fod wedi'i hyfforddi, y gall ymarfer mewn ffordd ddiogel ac effeithiol ac y gellir ymddiried ynddo a chael hyder ynddo.

Dim ond ni all atal nyrs neu fydwraig rhag ymarfer yn y DU drwy ei thynnu oddi ar y gofrestr neu gymryd camau i'w hatal dros dro neu gyfyngu ar y ffordd y mae'n ymarfer.

Ar 31 Mawrth 2014, roedd 680,858 o nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr. Gall unrhyw un weld a yw nyrs neu fydwraig wedi'i chofrestru ar hyn o bryd drwy fynd i www.nmc-uk.org/search-the-register neu ein ffonio neu ysgrifennu atom.

Addasrwydd i ymarfer

Rhaid i bob nyrs a bydwraig gymwysedig ddilyn ei chod proffesiynol, sef *Y Cod: Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg ar gyfer nyrsys a bydwragedd* (CNB, 2008);² ein safonau; a bod yn addas i ymarfer, fel y gall cleifion a'r cyhoedd ymddiried ynddynt i ofalu am eu hiechyd a'u lles. Rydym wrthi'n diwygio'r Cod er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r argymhellion yn adroddiad Francis ac er mwyn cefnogi ein cynlluniau i gyflwyno proses ail-ddilysu. Mae rhagor o fanylion ar gael yn ein hadroddiad blynyddol y cyfeiriwyd ato'n gynharach.

² Gallwch ddarllen hwn yn www.nmc-uk.org/code

Mae bod yn addas i ymarfer yn golygu bod gan nyrs neu fydwraig y sgiliau, y wybodaeth, yr iechyd da a'r cymeriad da i wneud ei gwaith yn ddiogel ac yn effeithiol heb gyfyngiad.

Pan fydd gan rywun bryderon am addasrwydd i ymarfer nyrs neu fydwraig, gall gyflwyno'r rhain i ni.

Rydym yn ymchwilio i honiadau amrywiol yn cynnwys:

- camymddwyn;
- diffyg cymhwysedd;
- ymddygiad troseddol;
- salwch difrifol.

Os na fydd nyrs neu fydwraig yn cyrraedd y safonau rydym yn eu pennu, ni fydd hyn o reidrwydd yn golygu na fydd yn addas i ymarfer - rhaid i ni ystyried yr holl amgylchiadau dan sylw.

Rydym hefyd yn ymchwilio i achosion lle mae'n ymddangos bod rhywun ar ein cofrestr drwy dwyll.

Pryd y gallwn ac na allwn ymchwilio

Dim ond i'r mathau canlynol o gwynion y gallwn ymchwilio:

- Cwyn yn erbyn nyrs neu fydwraig sydd ar ein cofrestr. Ni allwn ystyried cwynion am gynorthwyr gofal iechyd na gweithwyr gofal iechyd eraill.
- Pa un a yw nyrs neu fydwraig yn addas i fod ar ein cofrestr. Fel arfer, dylai unrhyw gwynion neu bryderon eraill am nyrs neu fydwraig gael eu datrys gan y cyflogwr neu awdurdod arall.

Y camau a gymerir os bydd nyrs neu fydwraig yn anaddas i ymarfer

Os bydd addasrwydd i ymarfer nyrs neu fydwraig yn ddiffygiol, efallai y byddwn yn penderfynu nad oes angen cymryd unrhyw gamau rheoleiddiol o ystyried holl amgylchiadau'r achos hwnnw. Os bydd angen cymryd camau, byddwn yn cyflwyno un o'r gorchymynion canlynol.

Gorchymyn rhybudd	Gellir cyflwyno'r gorchymyn hwn am gyfnodau o flwyddyn i bum mlynedd. Fe'i nodir ar y gofrestr gyhoeddus ond nid yw'n cyfyngu ar ymarfer y nyrs neu'r fydwraig.
Gorchymyn amodau ymarfer	Mae'r gorchymyn hwn yn cyfyngu ar ymarfer nyrs neu fydwraig am hyd at dair blynedd. Rhaid iddi gydymffurfio â'r cyfyngiadau er mwyn ymarfer. Er enghraifft, mae'n bosibl y caiff ei chyfyngu rhag cyflawni rhai agweddau ar y gwaith heb oruchwyliaeth. Rhaid i'r gorchymyn gael ei adolygu cyn iddo ddod i ben a gellir cyflwyno un arall yn ei le, ei amrywio neu ei ddiddymu.

Gorchymyn atal dros dro	Caiff y nyrs neu'r fydwraig ei hatal dros dro o'r gofrestr ac ni all ymarfer am gyfnod penodol o amser, na fydd yn fwy na blwyddyn i ddechrau. Rhaid i'r gorchymyn atal dros dro gael ei adolygu cyn iddo ddod i ben a gellir cyflwyno un arall yn ei le, ei amrywio neu ei ddiddymu.
Gorchymyn dileu	Caiff y nyrs neu'r fydwraig ei thynnu oddi ar y gofrestr ac ni chaiff ymarfer fel nyrs na bydwraig yn y DU.

Tynnu enw oddi ar y gofrestr o wirfodd

Yn 2013, cyflwynwyd proses tynnu enw oddi ar y gofrestr o wirfodd. Mae hyn yn galluogi nyrs neu fydwraig i wneud cais i gael ei thynnu oddi ar y gofrestr yn barhaus heb wrandawriad cyhoeddus llawn. Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y caiff ceisiadau o'r fath eu hystyried:

- mae'r nyrs neu'r fydwraig yn cyfaddef bod ei haddasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol;
- nid yw'r nyrs neu'r fydwraig yn bwriadu parhau i ymarfer;
- nid oes angen cynnal gwrandawriad cyhoeddus llawn er budd y cyhoedd;
- y ffordd orau o ddiogelu'r cyhoedd fydd tynnu'r nyrs neu'r fydwraig oddi ar y gofrestr ar unwaith.

Cipolwg ar ein gwaith yn 2013-2014

4,687 o atgyfeiriadau wedi'u derbyn

0.7 y cant o'r 680,858 o nyrsys a bydwagedd cofrestredig



Cynydd o 14% o gymharu â 2012–2013

768 o orchmynion interim wedi'u cyflwyno er mwyn cyfyngu ar ymarfer nyrs neu fydwraig neu atal nyrs neu fydwraig dros dro am gyfnod tra bod canlyniad yr achos neu apêl yn yr arfaeth

4816 o achosion wedi'u cau neu eu cwblhau

1503 o achosion wedi'u cau ar ôl asesiad cychwynnol (sgrinio)

1404 o achosion wedi'u cau gan y Pwyllgor Ymchwilio

1805 o achosion wedi'u cwblhau ar y cam dyfarnu

92 o achosion wedi'u cwblhau drwy broses tynnu enw oddi ar y gofrestr o wirfodd

12 o achosion o gofnodion twyllodrus neu anghywir ar y gofrestr



1405 o achosion wedi'u trosglwyddo i'r Pwyllgor Ymchwilio am ddyfarniad

1325 wedi'u trosglwyddo i'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd

80 wedi'u trosglwyddo i'r Pwyllgor Iechyd

1805 o benderfyniadau dyfarnu

404 o achosion lle y nodwyd nad oedd addasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol

1404 o achosion lle y nodwyd bod addasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol

537 o orchmynion dileu

357 o orchmynion atal dros dro

261 o orchmynion amodau ymarfer wedi'u cyflwyno

240 o orchmynion rhybudd wedi'u cyflwyno

6 achos heb unrhyw sancsiwn wedi'i orfodi



55 o apeliadau wedi'u hystyried

14 wedi'u caniatáu

41 wedi'u diystyru

19 o geisiadau am adferiad i'r gofrestr

8 cais llwyddiannus

11 o geisiadau aflwyddiannus

Sut y caiff pryderon eu codi gyda ni?

Gall unrhyw un ddweud wrthym os oes ganddo bryder am addasrwydd i ymarfer nyrs neu fydwraig.

Gallai fod yn un o'r canlynol:

- claf neu'n rhywun sy'n defnyddio gwasanaethau nyrs neu fydwraig;
- aelod o'r cyhoedd;
- cyflogwr neu reolwr y nyrs neu'r fydwraig;
- rhywun sy'n gweithio gyda'r nyrs neu'r fydwraig;
- yr heddlu; neu
- sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am reoleiddio gofal iechyd, megis y Comisiwn Ansawdd Gofal.

Gallwn hefyd agor achos ein hunain os credwn fod angen gwneud hynny.

Nid oes terfyn amser ar wneud atgyfeiriad ond mae'n well tynnu ein sylw at bryderon cyn gynted â phosibl fel ein bod yn fwy tebygol o allu eu hystyried yn llawn a chael gafael ar yr holl dystiolaeth sydd ei hangen arnom.

Sicrhau bod yr achosion cywir yn ein cyrraedd

Rydym yn disgwyl i gyflogwyr a chydweithwyr nyrsys a bydwagedd roi gwybod i ni os byddant yn pryderu am addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer. Rydym yn atgoffa nyrsys a bydwagedd yn gyson o'u dyletswydd o dan y Cod i ddweud wrthym os oes ganddynt bryderon am gydweithiwr.

Gan fod y rhan fwyaf o'n hachosion yn dod o gyflogwyr (45 y cant y llynedd), rydym yn gweithio'n agos gyda'r sawl sy'n cyflogi nyrsys neu fydwragedd fel eu bod yn gwybod pryd i atgyfeirio achosion atom. Gall cyfarwyddwyr nyrsio, penaethiaid bydwreigiaeth a swyddogion bydwreigiaeth awdurdodau goruchwylio lleol ffonio ein llinell gymorth ddynodedig i ofyn am gyngor neu wybodaeth am atgyfeiriadau posibl. Yn ystod 2013-2014, gwnaethom gynnal rhaglen eang o ymweliadau a chyfarfodydd ar draws y pedair gwlad er mwyn trafod ein gwaith gyda'r sawl ar lawr gwlad i'w helpu i ddeall yn well pryd i atgyfeirio achosion atom.

Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â thros 150 o arweinwyr nyrsio yn Lloegr gyda chymorth gan yr Awdurdod Datblygu Ymddiriedolaethau. Gwnaethom hefyd ymweld â phob un o'r Ymddiriedolaethau a nodwyd yn Adolygiad Keogh o Farwolaethau. Clywsom yn uniongyrchol gan arweinwyr nyrsio am y gwaith gwella sy'n mynd rhagddo a'r heriau a wynebir gan arweinwyr nyrsio mewn ymddiriedolaethau sy'n destun craffu. Ar ôl pob ymweliad, gwnaethom rannu data gyda phob Ymddiriedolaeth am yr atgyfeiriadau a gafwyd ganddi a gwnaethom gynnal ymweliadau pellach er mwyn trafod yn fanylach sut a phryd y dylid atgyfeirio achosion addasrwydd i ymarfer atom.

Bu'r ymweliadau'n gymorth i atgyfnerthu'r ffordd rydym yn ymgysylltu ar y lefel hon, ac roeddent yn gyfle i gael sylwadau ar ein gwaith gan uwch nyrsys a bydwagedd ac i godi proffil ein gwaith, gan gynnwys adolygu'r Cod, y broses ail-ddilysu ac addysg.

Rydym hefyd yn gweithio gyda chleifion a grwpiau cymorth cleifion fel y gallant ddeall yn well pa achosion y gallwn ymchwilio iddynt ac felly wella'r cyngor y maent yn ei roi i gleifion ac eraill. Gwnaethom drefnu ymweliad ag un o'n lleoliadau gwrandawiadau ar gyfer aelodau ein fforwm ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd. Rhoddwyd cyflwyniad i'r fforwm ar ein prosesau addaswydd i ymarfer a'r ffordd y mae ein gwrandawiadau'n gweithio.


Mae ein llyfryn newydd, *Codi pryderon am nyrsys neu fydwragedd* (2013), a luniwyd gyda chymorth gan fforwm ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd, yn anelu at helpu'r grwpiau hyn i wella'r help y gallant ei roi i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau eraill o'r cyhoedd. Mae'r llyfryn hwn ar gael yn www.nmc-uk.org/supporting-patients.

Tabl 1: Pwy wnaeth atgyfeirio achosion atom yn 2013-2014?

Yn ystod 2013-14, cawsom 4,687 o achosion newydd (cynnydd o 14 y cant o gymharu â 2012-2013). Caiff rhai achosion eu hatgyfeirio gan fwy nag un person neu sefydliad, felly mae nifer y bobl neu sefydliadau a atgyfeiriodd achosion atom ychydig yn uwch na'r ffigur hwn, fel y dangosir isod.

Pwy wnaeth atgyfeirio achosion atom	Nifer yr atgyfeiriadau newydd	Canran
Cyflogwr	2,141	45%
Aelod o'r cyhoedd, defnyddiwr gwasanaeth neu glaf	1,029	22%
Yr Heddlu	428	9%
Hunanatgyfeiriad	376	8%
Arall (gan gynnwys atgyfeiriadau gan gyfreithwyr, crwneriaid a chydweithwyr)	354	7%
Cofrestrydd CNB	178	4%
Atgyfeiriwr yn anhysbys	131	3%
Corff rheoleiddio neu broffesiynol arall	127	2%
Cyfanswm	4,764	100%

Siart 1: Pwy wnaeth atgyfeirio achosion atom yn 2013-2014?



Sut rydym yn ymdrin â phryderon a godir

Pan fyddwn yn cael atgyfeiriad, byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Cynnal asesiad cychwynnol (sgrinio) o'r honiad neu'r gŵyn, gan gynnwys pennu a oes angen gweithredu ar fyrder.

Os byddwn, ar y cam asesu cychwynnol, o'r farn nad yw'r honiad, ar ei ben ei hun, yn ddigon difrifol i gymryd camau rheoleiddio, byddwn yn cysylltu â chyflogwr y nyrs neu'r fydwraig i gadarnhau nad oes ganddo unrhyw bryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer. Ar ôl pennu hyn, gall yr achos fel arfer gael ei gau.

- Lle y bo angen, ymchwilio i'r honiad neu'r gŵyn: y cam 'ymchwilio'.
- Lle y bo angen, cynnal gwrandawriad neu gyfarfod i gyrraedd penderfyniad terfynol a phennu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd. Y cam 'dyfarnu' yw hwn.

Y llynedd, gwnaethom ddau newid i'n prosesau a'n rheolau er mwyn ein helpu i gynnal achosion yn fwy cyflym ac effeithlon:

- **Tynnu enw oddi ar y gofrestr o wirfodd** – mae hyn yn galluogi nyrs neu fydwraig sy'n cyfaddef bod ei haddasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol, ac nad yw'n bwriadu parhau i ymarfer, i wneud cais i gael ei thynnu'n barhaol oddi ar y gofrestr heb orfod cynnal gwrandawriad cyhoeddus llawn. Dim ond lle nad oes angen cynnal gwrandawriad llawn er budd y cyhoedd y caiff ceisiadau o'r fath eu cymeradwyo a lle mai'r ffordd orau o ddiogelu'r cyhoedd fydd tynnu'r nyrs neu'r fydwraig oddi ar y gofrestr ar unwaith.

Y Cofrestrydd sy'n gyfrifol am benderfynu ceisiadau gan nyrsys a bydwagedd i gael eu tynnu oddi ar y gofrestr o wirfodd. Os na chaiff cais ei gytuno, caiff yr achos ei drosglwyddo i'r broses addasrwydd i ymarfer yn y ffordd arferol.

Yn ystod 2013-2014, cawsom 194 o geisiadau gan nyrsys a bydwagedd i gael eu tynnu oddi ar y gofrestr o wirfodd, a chymeradwywyd 92 o'r achosion hyn.

- **Penderfyniadau panel drwy gytundeb** – ffordd o gwblhau achos drwy gytundeb. Os bydd nyrs neu fydwraig yn derbyn bod ei haddasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol, gallwn gytuno ar sancsiwn i'w ystyried gan banel mewn gwrandawriad cyhoeddus. Ceidw'r panel yr hawl i wneud y penderfyniad terfynol ond mae'r broses hon wedi ein galluogi i leihau'r amser a gymerir i gynnal gwrandawriadau mewn achosion priodol. Caiff yr achosion hyn eu cynnwys yn y canlyniadau ar y cam dyfarnu.

Mae'r siart ar dudalen 14 yn dangos beth sy'n digwydd i achosion ar ôl i ni eu cael.

Pwyllgorau ymarfer

Caiff achosion eu hystyried gan ein pwyllgorau ymarfer. Mae tri math o bwllgor ymarfer:

- **Pwyllgor Ymchwilio** - mae'r pwyllgor hwn yn penderfynu a oes achos i'w ateb. Os yw o'r farn bod achos i'w ateb, bydd yn anfon yr achos i'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd neu'r Pwyllgor Iechyd am benderfyniad.
- **Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd** - mae'r pwyllgor hwn yn penderfynu achosion lle ceir honiadau sy'n ymwneud ag ymddygiad a/neu gymhwysedd y nyrs neu'r fydwraig.
- **Pwyllgor Iechyd** - mae'r pwyllgor hwn yn penderfynu achosion lle ceir honiadau sy'n ymwneud ag iechyd corfforol a/neu iechyd meddwl y nyrs neu'r fydwraig.


Caiff achosion unigol eu hystyried gan banel o'r pwyllgor perthnasol. Mae'r paneli yn cynnwys nyrsys, bydwragedd a phobl leyg o'r tu allan i'r proffesiynau. Bydd pob panel yn cynnwys cadeirydd, aelod lleyg a nyrs neu fydwraig. Caiff pob panelwr ei recriwtio mewn modd agored a thryloyw a oruchwylir gan y Bwrdd Penodiadau.

Un o bwyllgorau'r Cyngor yw'r Bwrdd Penodiadau. Mae'n cynnwys pum aelod ac nid yw'r un ohonynt yn aelod o'r Cyngor. Caiff aelodau'r Bwrdd Penodiadau eu recriwtio mewn modd agored a thryloyw hefyd.

Cynorthwyr aelodau paneli addasrwydd i ymarfer gan y Tîm Cymorth Panel. Caiff pob aelod o banel hyfforddiant ac arweiniad ar sut i gyflawni ei rôl.

Mae rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae paneli'n gweithio ar gael ar ein gwefan yn www.nmcuk.org/Hearings/How-the-process-works.

Proses addasrwydd i ymarfer



Esboniad o dermau a mathau o siartiau

PI - Pwyllgor Iechyd
 PYCh - Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd



Asesiad cychwynnol


Pan fyddwn yn cael atgyfeiriad newydd, awn ati'n gyntaf i weld a yw'r unigolyn y gwnaed cwyn amdano yn nyrs neu'n fydwraig ar ein cofrestr. Os na fyddwn, ar ôl cynnal asesiad cychwynnol (sgrinio), yn gallu gweld bod yr unigolyn yn nyrs neu'n fydwraig gofrestredig, neu os na allai'r honiadau'n arwain at achos o ddiffyg addasrwydd i ymarfer, byddwn yn cau'r achos. Caewyd 1,503 o achosion ar y cam sgrinio yn ystod 2013–2014.

Yn ystod 2013-2014, cawsom 4,687 o atgyfeiriadau newydd.

Tabl 2: Atgyfeiriadau newydd a gafwyd rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2014

Mis	2009-2010	2010-2011	2011-2012	2012-2013	2013-2014
Ebrill	233	393	294	321	438
Mai	181	331	342	351	416
Mehefin	249	337	390	315	371
Gorffennaf	231	352	403	353	408
Awst	239	278	383	330	372
Medi	186	394	377	312	345
Hydref	242	302	378	351	421
Tachwedd	244	333	419	366	483
Rhagfyr	279	291	356	317	258
Ionawr	266	365	378	363	367
Chwefror	262	473	315	368	465
Mawrth	374	362	372	359	343
Cyfanswm	2,986	4,211	4,407	4,106	4,687

Siart 2: Atgyfeiriadau newydd a gafwyd rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2014




Tabl 3: Atgyfeiriadau newydd fesul gwlad o gymharu â chyfraddau cofrestru fesul gwlad³

Mae cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau yn cynrychioli tua 0.7 y cant o'r nyrsys a'r bydwagedd cofrestredig. Ar 31 Mawrth 2014, roedd 762 o atgyfeiriadau nas nodwyd. Mae'r nifer hon yn cynnwys atgyfeiriadau a gafwyd ac a gaewyd yn ystod 2013-14 am nad oedd modd nodi nyrs neu fydwraig gofrestredig. Mae hefyd yn cynnwys achosion lle nad oeddem eto wedi nodi nyrs neu fydwraig gofrestredig erbyn 31 Mawrth 2014. Caiff rhai o'r rhain eu nodi yn y cyfnod adrodd nesaf.

Gwlad	Rhif ar y gofrestr	Canran y gofrestr	Nifer yr atgyfeiriadau	Canran yr atgyfeiriadau
Lloegr	537,140	79%	3,164	81%
Yr Alban	68,050	10%	374	10%
Cymru	34,259	5%	230	6%
Gogledd Iwerddon	23,291	3%	122	3%
Tramor (gan gynnwys yr UE)	18,118	3%	35	Llai nag 1%
Cyfanswm	680,858	100%	3,925	100%
Atgyfeiriadau nas nodwyd	–	–	762	–
Cyfanswm yr atgyfeiriadau	–	–	4,687	–

Siart 3: Atgyfeiriadau newydd a nodwyd fesul gwlad o gymharu â chyfraddau cofrestru fesul gwlad



³ Cyfeirir at y wlad lle mae cyfeiriad cofrestredig y nyrs neu'r fydwraig.


Natur yr honiadau a gafodd eu hatgyfeirio atom

Mae'r tabl isod yn dangos y prif fathau o honiadau a wnaed mewn atgyfeiriadau newydd a gawsom yn ystod 2013-2014. Mae llawer o achosion yn cynnwys mwy nag un math o honiad am nyrs neu fydwraig benodol.

Tabl 4: Mathau o honiadau a wnaed mewn atgyfeiriadau newydd a gafwyd yn 2013-2014

Mathau o honiadau	Canran
Camymddwyn	75%
Troseddol	15%
Diffyg cymhwysedd	6%
Iechyd	3%
Ymchwiliad gan yr Heddlu	Llai nag 1%
Cofnod twyllodrus neu anghywir ar y gofrestr	Llai nag 1%
Penderfyniad gan gorff arall (er enghraifft, Bwrdd Nyrsio Iwerddon neu'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal)	Llai nag 1%
Cyfanswm	100%

Siart 4: Mathau o honiadau a wnaed mewn atgyfeiriadau newydd a gafwyd yn 2013-2014



Gweithredu ar fyrder i ddiogelu'r cyhoedd

Ni yw'r unig sefydliad all atal nyrsys a bydwagedd rhag ymarfer yn y DU os ydynt yn peri risg i ddiogelwch cleifion.

Os bydd iechyd a lles y cyhoedd mewn perygl uniongyrchol a difrifol, gallwn weithredu ar fyrder, drwy gyflwyno 'gorchmynion interim'. Mewn sefyllfa o'r fath, gofynnir i banel pwyllgor ymarfer ystyried a ddylai'r nyrs neu'r fydwraig gael ei hatal dros dro ar unwaith, neu a ddylid cyfyngu ar y ffordd y gall ymarfer, hyd nes y gallwn ymchwilio i'r achos yn drwyadl. Rydym yn asesu pob achos yn gyson drwy gydol y broses, felly os daw gwybodaeth newydd i'r amlwg ar unrhyw adeg sy'n awgrymu bod risg uniongyrchol a difrifol i'r cyhoedd, gallwn ystyried a oes angen cyflwyno gorchmyn interim.

Caiff gwrandawiadau i ystyried gorchmyn interim eu cynnal yn gyhoeddus. Bydd panel yn ystyried pa un a yw'r gorchmyn interim:


- yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd;
- er budd y cyhoedd;
- er budd y nyrs neu'r fydwraig.

Ein perfformiad yn 2013-2014

Rydym wedi pennu dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer cyflwyno gorchmynion interim o fewn 28 diwrnod i gael achos lle nodwn fod angen gweithredu ar fyrder er mwyn diogelu'r cyhoedd. Rydym wedi pennu targed i gyflawni hyn mewn 80 y cant o achosion. Gwnaethom gyflawni ein targed yn gyson drwy'r rhan fwyaf o 2013-2014, er y bu gostyngiad mewn perfformiad yn ystod mis Ionawr, yn bennaf oherwydd problemau gyda'r system TGCh. Dangosir perfformiad yn erbyn ein dangosydd perfformiad allweddol yn y graff isod.

Dangosydd perfformiad allweddol: Canran y gorchmynion interim a gyflwynwyd mewn 28 diwrnod

Targed ar gyfer 2013-2014: 80 y cant




Canlyniadau gorchmynion interim

Tabl 5: Gorchmynion interim a gyflwynwyd 2013-2014

Penderfyniadau gorchmynion interim	Nifer y gorchmynion interim	Canran
Gorchymyn amodau ymarfer interim	289	38%
Gorchymyn atal dros dro interim	479	62%
Cyfanswm y gorchmynion interim a gyflwynwyd	768	100%

Siart 5: Gorchmynion interim a gyflwynwyd 2013-2014



Ymchwiliadau

Pan fyddwn yn fodlon y gallwn ymdrin ag achos a'n bod wedi cynnal ymchwiliad, caiff yr achos ei ystyried gan banel o'r Pwyllgor Ymchwilio (PY). Rhaid i banel y Pwyllgor Ymchwilio benderfynu a oes achos i'w ateb. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddo benderfynu a oes siawns wirioneddol y gellid profi'r honiad ar y cam dyfarnu.

Os bydd panel PY yn penderfynu nad oes unrhyw achos i'w ateb, mae'r mater ar ben. Fodd bynnag, gall yr achos gael ei ailagor os gwneir atgyfeiriad arall ynghylch yr un nyrs neu fydwraig ymhen tair blynedd.

Os bydd panel yn penderfynu bod achos i'w ateb, bydd yn trosglwyddo'r achos i'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd neu'r Pwyllgor Iechyd, yn dibynnu ar natur yr honiadau dan sylw.


Yn 2013-2014, ystyriodd y Pwyllgor Iechyd 2809 o achosion.

- Caewyd 1404 o achosion (ychydig yn llai na hanner) gan nad oedd y Pwyllgor Iechyd o'r farn bod unrhyw achos i'w ateb.
- Trosglwyddwyd 1405 o achosion (ychydig dros hanner) am ddyfarniad.
- Dilëwyd 12 o gofnodion twyllodrus neu anghywir oddi ar y gofrestr.

Ein perfformiad yn 2013-2014

Ein dangosydd perfformiad allweddol yw cwblhau ymchwiliadau mewn 12 mis. Gwnaethom bennu targed i gwblhau 90 y cant o ymchwiliadau o fewn 12 mis erbyn mis Mawrth 2014. Gwnaethom gyflawni 87 y cant ym mis Mawrth, ychydig yn llai na'r targed, er i ni ei gyflawni neu ragori arno ar adegau yn ystod y flwyddyn. Y rheswm am hyn yw bod ein llwyth achosion yn cynnwys cymysgedd o hen achosion a rhai newydd. Ar gyfartaledd, yn ystod 2013-2014, gwnaethom gwblhau 87 y cant o ymchwiliadau mewn 12 mis, a oedd yn welliant sylweddol o gymharu â chyfartaledd o 68 y cant yn 2012-2013.

Dangosydd perfformiad allweddol: Canran yr ymchwiliadau a gwblhawyd mewn 12 mis
Targed: 90 y cant erbyn mis Mawrth 2014




Canlyniadau'r Pwyllgor Ymchwilio

Tabl 6: Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio 2013-2014

Mae cyfanswm nifer yr achosion a atgyfeiriwyd am ddyfarniad yn cynrychioli tua 0.2 y cant o gyfanswm nifer y nyrsys a'r bydwagedd cofrestredig.

Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio	Nifer yr achosion	Canran
Atgyfeirio at y Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd (PYCh)	1,325	47%
Atgyfeirio at y Pwyllgor Iechyd (PI)	80	3%
Cyfanswm a atgyfeiriwyd am ddyfarniad	1,405	50%
Dim achos i'w ateb	1,404	50%
Cyfanswm canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio	2,809	100%

Siart 6: Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymchwilio 2013-2014



Cofnodion twyllodrus neu anghywir ar y gofrestr 2013-2014

Mae paneli'r Pwyllgor Ymchwilio hefyd yn ymdrin â honiadau ynghylch cofrestru drwy dwyll neu'n anghywir. Bydd y paneli'n penderfynu a oes sail i'r honiadau ac, os felly, yn cyfarwyddo'r Cofrestrydd i ddileu neu ddiwygio'r cofnodion ar y gofrestr.

Yn 2013-2014, nodwyd 12 o gofnodion twyllodrus neu anghywir lle y cafodd enw'r unigolyn ei dynnu oddi ar y gofrestr.

Dyfarniadau

Caiff achosion a atgyfeirir gan y Pwyllgor Ymchwilio am ddyfarniad eu hystyried gan banel o'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd neu'r Pwyllgor Iechyd mewn gwrandawriad neu gyfarfod. Diben y gwrandawriad neu'r cyfarfod yw pennu a yw'r unigolyn yn peri risg i'r cyhoedd.

Bydd y paneli yn adolygu'r wybodaeth a gyflwynir ger eu bron, yn cael cyngor arbenigol, ac yn cwestiynu tystion, a allai gynnwys cychwynnydd y gŵyn, cyflogwyr a'r nyrs neu'r fydwraig dan sylw (neu'r sawl sy'n ei chynrychioli). Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth, bydd y panel yn penderfynu a yw addasrwydd i ymarfer y nyrs neu'r fydwraig yn ddiffygiol.

Os daw'r panel i'r casgliad bod addasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol, bydd wedyn yn penderfynu ar y camau priodol i'w cymryd. Mewn rhai achosion, gall panel benderfynu, er bod addasrwydd i ymarfer nyrs neu fydwraig yn ddiffygiol, ar ôl ystyried holl amgylchiadau'r achos, na ddylid gosod sancsiwn.

Os ystyrir bod sancsiwn yn briodol, bydd y panel yn ystyried yn eu tro pa un ai'r sancsiynau fel y'u nodir ar dudalen 5 yw'r rhai mwyaf priodol i ddiogelu iechyd a lles y cyhoedd. Wrth wneud hynny, bydd y panel yn ystyried canllawiau ar sancsiynau dangosol. Maent ar gael yn www.nmc-uk.org/Documents/FtP_Information/Indicative-Sanctions-Guidance.May-12.pdf

Yn gyffredinol, gwrandewir achosion iechyd yn breifat, oherwydd natur gyfrinachol y dystiolaeth feddygol a ystyrir. Fel arfer, gwrandewir achosion ymddygiad a chymhwysedd yn gyhoeddus. Mae croeso i bawb arsylwi gwrandawriadau addasrwydd i ymarfer cyhoeddus. Mae gwybodaeth am sut i fod yn bresennol ar gael yn www.nmc-uk.org/hearings. Yma cewch hefyd benderfyniadau terfynol ar wrandawriadau lle y gosodwyd sancsiwn a'r rhesymau drostynt.


Ein perfformiad yn 2013-2014

Ein dangosydd perfformiad allweddol yw i achosion gyrraedd diwrnod cyntaf gwrandawriad neu gyfarfod cam dyfarnu o fewn chwe mis i ddiwedd yr ymchwiliad. Rydym wedi pennu targed y bydd 90 y cant o achosion yn cyrraedd y cam hwn erbyn mis Rhagfyr 2014. Rydym wedi gwneud hyn oherwydd cymysgedd oedran yr achosion sy'n aros am ddyfarniad.

Gan nad ydym yn disgwyl cyflawni'r targed tan fis Rhagfyr, rydym wedi rhagweld cynnydd tuag at gyflawni'r targed. Rydym yn asesu ein perfformiad yn ôl y graddau rydym wedi cyflawni neu ragori ar y rhagolwg drwy gydol 2013-2014, fel y dangosir yn y graff canlynol. Yn ystod 2013-2014, roedd ein perfformiad yn gyffredinol yn gyson â'n rhagolwg: mae hyn yn golygu ein bod ar y trywydd cywir i gyflawni'r targed erbyn mis Rhagfyr 2014.

Dangosydd perfformiad allweddol: Canran yr achosion a ddatblygwyd o'r cam cwblhau ymchwiliad i ddechrau gwrandawriad neu gyfarfod mewn chwe mis

Targed: 90 y cant erbyn mis Rhagfyr 2014



Canlyniadau terfynol y Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd a'r Pwyllgor Iechyd

Mae'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd yn ystyried ac yn gwneud penderfyniadau terfynol ar achosion lle y ceir pryderon am ymddygiad neu gymhwysedd nyrs neu fydwraig. Gall y pwyllgor drosglwyddo achos i'r Pwyllgor Iechyd am benderfyniad os bydd o'r farn bod y materion a godwyd yn rhai y byddai'n fwy priodol i'r pwyllgor hwnnw eu hystyried, ar yr amod nad yw'r honiadau yn ddigon difrifol y gallent arwain at orchymyn dileu.

Mae'r Pwyllgor Iechyd yn ystyried achosion lle y gall addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer fod yn ddiffygiol am resymau iechyd corfforol neu iechyd meddwl. Gall drosglwyddo achos i'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd am benderfyniad os bydd o'r farn bod y pryderon a godwyd yn ymwneud yn fwy ag ymddygiad neu gymhwysedd nyrs neu fydwraig yn hytrach na materion iechyd.


Tabl 7: Canlyniadau dyfarnu terfynol PYCh a PI yn 2013-2014

Mae cyfanswm nifer yr achosion lle nodwyd bod addasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol a lle y gosodwyd sanctiwn yn cynrychioli tua 0.2 y cant o gyfanswm nifer y nyrsys a'r bydwragedd cofrestredig. Cafodd cyfran fach o'r rhain eu datrys drwy benderfyniadau panel drwy gytundeb.

Canlyniadau dyfarnu terfynol PYCh a PI*	Nifer y penderfyniadau	Canran
Gorchmynion dileu	537	30%
Gorchmynion atal dros dro	357	20%
Gorchmynion amodau ymarfer	261	14%
Gorchmynion rhybudd	240	13%
Addasrwydd i ymarfer diffygiol - dim sanctiwn	6	Llai nag 1%
Cyfanswm	1,401	77%
Addasrwydd i ymarfer ddim yn ddiffygiol	404	23%
Cyfanswm y canlyniadau terfynol	1,805	100%

* Mae'r rhain yn cynnwys penderfyniadau a wnaed yn sgil adolygu gorchymyn sylweddol a gyflwynwyd yn gynharach yn yr un achos.

Siart 7: Canlyniadau dyfarnu terfynol PYCh a PI 2013–2014



Apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau

Gall nyrs neu fydwraig apelio yn erbyn y sancsiwn a gyflwynwyd gennym. Mae'n rhaid gwneud yr apêl o fewn 28 diwrnod. Gwrandewir apeliadau yn yr Uchel Lys Cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr, y Llys Sesiwn yn yr Alban neu'r Uchel Lys Cyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon, yn dibynnu ar y wlad lle mae cyfeiriad cofrestredig y nyrs neu'r fydwraig.

Ni all cychwynnydd yr achos apelio yn erbyn ein penderfyniad, ond gall geisio adolygiad barnwrol os na fydd yn fodlon ar y broses a ddefnyddiwyd i gyrraedd y penderfyniad.

Gall yr Awdurdod Safonau Proffesiynol apelio yn erbyn ein penderfyniadau os bydd o'r farn nad yw penderfyniad yn ddigon llym: cyflwynwyd pedair apêl o'r fath yn 2013-2014. Atgyfeiriwyd un o'r apeliadau gennym ni at yr Awdurdod, gan ein bod yn pryderu nad oedd y sancsiwn a osodwyd yn ddigon llym. Yn dilyn hynny, cafodd yr achos hwn ei ddatrys wrth i'r unigolyn gytuno i gael ei ddileu oddi ar y gofrestr.

Tabl 8: Apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau

Canlyniadau apeliadau *	Nifer
Caniatawyd neu dychwelwyd at y Pwyllgor Ymarfer gan y Llys	14
Gwrthodwyd gan y Llys	41
Cyfanswm	55

* Canlyniadau apeliadau lle y gwnaeth y Llys benderfyniad yn 2013–2014 yw'r rhain. Efallai bod rhai apeliadau wedi cael eu cyflwyno cyn 2013-2014.

Adfer enw nyrs neu fydwraig i'r gofrestr

Rhaid i nyrsys a bydwraidd sydd wedi cael eu dileu oddi ar y rhestr aros bum mlynedd cyn y gallant gwneud cais i adfer eu henw i'r gofrestr.

Yn gyntaf, rhaid i nyrs neu fydwraig fodloni panel o'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd neu'r Pwyllgor Iechyd ei bod yn addas i ymarfer. Os yw'n gallu gwneud hynny, bydd angen iddi fel arfer ddilyn rhaglen dychwelyd i ymarfer cyn gallu ailymuno â'r gofrestr. Ystyriwn fod y profion llym hyn yn helpu i sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu diogelu'n briodol.

Tabl 9: Canlyniadau ceisiadau adfer

Achosion adfer a ystyriwyd	Canlyniad
Ceisiadau a dderbyniwyd	8
Ceisiadau a wrthodwyd	11
Cyfanswm	19

Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses addasrwydd i ymarfer 2013–2014

Yn ystod 2013-2014, gwnaethom barhau i ddatblygu ein rhaglen fawr i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein prosesau addasrwydd i ymarfer. Rydym wedi cefnogi hyn drwy fuddsoddi'n sylweddol: cafodd tua 78 y cant o'n cyllideb ei gwario ar ein swyddogaeth addasrwydd i ymarfer eleni. Gwnaeth hyn ein galluogi i gynyddu lefelau staffio a nifer y gweithgareddau a gynhelir gennym, yn ogystal â chyflwyno prosesau newydd a gwella'r rhai sy'n bodoli eisoes.

Ymhlith y datblygiadau allweddol yn ystod y flwyddyn roedd:

- Ymchwilio i tua 80 y cant o achosion yn fewnol, yn hytrach na'u trosglwyddo ar gyfer ymchwiliad allanol.
- Cynyddu nifer y cyfarfodydd a'r gwrandawiau a gynhelir bob dydd i 30.
- Cynyddu nifer yr aelodau panel a all ystyried achosion a gwella'r hyfforddiant, y cymorth a'r canllawiau a roddir i aelodau ac ysgrifenyddion panel.
- Cyflwyno prosesau newydd i ddatrys achosion a darparu ffyrdd amgen o wrando achos yn lle gwrandawriad llawn lle y bodlonir meini prawf penodol: tynnu enw oddi ar y gofrestr o wirfodd a phenderfyniadau panel drwy gytundeb. Rydym wedi mireinio a gwella'r prosesau hyn yn ystod y flwyddyn, gan ein bod wedi dysgu o'r modd y cânt eu gweithredu'n ymarferol a byddwn yn parhau i wneud hynny. Rydym hefyd wedi ystyried dysgu o adroddiad archwilio camau cychwynnol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yn 2013.

Ein perfformiad yn 2013-2014

Er gwaethaf cynnydd o 14 y cant yn nifer yr atgyfeiriadau, rydym wedi gweld gwelliannau sylweddol mewn perfformiad. Mae ein dangosyddion perfformiad allweddol a'n targedau yn canolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd yn gyflym a datrys achosion yn gynt.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, gwnaethom y canlynol:

- rhagori ar ein targed ar gyfer diogelu'r cyhoedd drwy orchmynion interim (tudalen 18);
- methu o drwch blewyn yn unig â chyflawni ein targed ar gyfer cwblhau ymchwiliadau i achosion (tudalen 20);
- cyrraedd neu ragori ar lefel y perfformiad a gynlluniwyd o ran yr amser y mae'n ei gymryd i achosion gyrraedd y cam dyfarnu. Mae hyn yn golygu ein bod ar y trywydd cywir i gyflawni ein targed ym mis Rhagfyr 2014 (tudalennau 22-23);

Ymhlith cyflawniadau sylweddol eraill yn 2013-2014 roedd:

- Ers mis Chwefror 2013, cwblhau 1,583 o'n hachosion hynaf a mwyaf cymhleth. Rydym bellach wedi cwblhau pob un o'n hachosion hanesyddol (y rheini a gyflwynwyd cyn i'n rhaglen gwella ddechrau ym mis Ionawr 2011) ac eithrio chwech a gafodd eu hoedi gan ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth.
- Ymdrin yn well ag achosion ar y camau cychwynnol a chymhwyso prosesau asesu risg yn gyson, fel y nodwyd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yn ei adroddiad archwilio camau cychwynnol yn 2013.

- Gwella profiad tystion sy'n ymwneud â'n achosion. Rydym bellach yn cynnig y cyfle i dystion a'r sawl sy'n cofrestru ymweld â lleoliadau gwrandawiadau ymlaen llaw ac yn rhoi rhagor o wybodaeth ar ein gwefan am yr hyn sydd i'w ddisgwyl mewn gwrandawriad. Rydym hefyd wedi cyhoeddi ein ffurflen adborth cwsmeriaid ar-lein, mewn ymateb i geisiadau am hyn. Rydym hefyd yn gwella ein gwasanaeth i gwsmeriaid yn fwy cyffredinol, gan gynnwys drwy hyfforddiant staff ac rydym yn dechrau gweld mwy o foddhad ymhlith cwsmeriaid o ganlyniad i hyn.
- Sicrhau bod 99 y cant o'r rhai sy'n ymwneud ag achos wedi cael gwybod am y penderfyniad terfynol o fewn pum diwrnod gwaith.
- Cael adborth cadarnhaol gan y cyffff proffesiynol a'r undebau am y gwasanaeth i gwsmeriaid, gwelliannau yn ein prosesau a'r ffordd rydym yn ymgysylltu â hwy o ran y newidiadau a gyflwynwyd neu sydd yn yr arfaeth.

We have developed a performance and quality-management framework which sets standards for our work and against which we can quality assure and assess the outcomes we achieve. This will be fully operational by autumn 2014.

Rydym wedi datblygu fframwaith rheoli perfformiad ac ansawdd sy'n nodi safonau ar gyfer ein gwaith y gallwn ei ddefnyddio i sicrhau ansawdd ac asesu'r canlyniadau a gyflawnir gennym. Bydd hwn yn gwbl weithredol erbyn hydref 2014.

Sicrhau effeithlonrwydd

Gwyddom fod angen i ni wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ni er mwyn sicrhau gwerth am arian a chyfeirio ein hadnoddau at yr achosion mwyaf difrifol sy'n peri'r risgiau mwyaf i'r cyhoedd.

Yn ystod 2013-2014, gwnaethom sicrhau arbedion effeithlonrwydd o fwy na £11.3 miliwn mewn prosesau Addasrwydd i Ymarfer drwy wneud y canlynol:

- Ymchwilio i 80 y cant o achosion yn fewnol.
- Diwygio ein gorchymyn interim a phrosesau'r Pwyllgor Ymchwilio.
- Cyflwyno proses i dynnu enw oddi ar y gofrestr o wirfodd a phenderfyniadau panel drwy gytundeb, gan leihau nifer y gwrandawiadau cyhoeddus llawn y mae angen i ni eu cynnal. Gan fod pob gwrandawriad yn costio £13,000 ar gyfartaledd, mae'r mentrau hyn yn rhyddhau adnoddau i'w defnyddio mewn mannau eraill.
- Newid y ffordd rydym yn defnyddio ysgrifenydd llaw-fer a lleihau nifer yr achosion lle mae angen trawsgrifiadau.
- Mentrau gwella busnes a systemau parhaus er mwyn adolygu a gwella prosesau busnes a'n System Rheoli Achosion.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau arbedion effeithlonrwydd pellach gan wella ein heffeithlonrwydd a rheoli baich gwaith dyddiol heriol ar yr un pryd.

Ffocws ar gyfer y dyfodol

Gwyddom fod gennym ragor i'w wneud. Dros y tair blynedd nesaf mae gennym raglen uchelgeisiol i wella ansawdd ein gwaith, gan gynnwys ein prosesau gwneud penderfyniadau, ein gwasanaeth i gwsmeriaid, y ffordd rydym yn diogelu'r wybodaeth a ddelir gennym a pha mor gyflym yr ymdrinnir ag achosion.

Mae parhau i wella profiad pawb sy'n ymwneud ag achosion addasrwydd i ymarfer yn flaenoriaeth i ni. Byddwn yn ystyried sut y gallwn wella'r cymorth a roddir i dystion ymhellach, gan gynnwys ystyried arfer da mewn manau eraill. Byddwn hefyd yn asesu ac yn adrodd ar adborth gan gwsmeriaid ac yn defnyddio hyn i nodi'r cwmpas ar gyfer gwelliannau pellach ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Mae lleihau'r amser a gymerir i ddatrys achosion ymhellach yn flaenoriaeth allweddol. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ein gwaith ar hyn o bryd yn llesteirio ein gallu i leihau amseroedd aros yn sylweddol. Ond rydym yn benderfynol o wneud popeth o fewn ein gallu i wella tra ein bod yn aros am y newid deddfwriaethol mawr a addawyd gan y Llywodraeth. Byddwn yn cyflwyno archwilwyr achosion yn gynnar yn 2015, drwy'r newidiadau llai o faint y gellir eu gwneud o dan ein fframwaith cyfreithiol presennol. Bydd hyn yn helpu i ddatrys achosion yn gynt ar y camau cychwynol, yn ogystal â gwella cysondeb y broses o wneud penderfyniadau.

Unwaith y byddwn wedi cyflawni ein targed dyfarnu ym mis Rhagfyr 2014, byddwn yn pennu targed yn seiliedig ar ddatrys achosion o'r dechrau i'r diwedd o fewn 15 mis. Byddwn yn dechrau mesur canran yr achosion a gwblhawyd o fewn 15 mis o fis Gorffennaf 2014 ac yn cyflwyno adroddiadau cyhoeddus ar hynny. Bydd hyn yn rhoi'r wybodaeth i ni bennu targed heriol ar gyfer 2015-2016, gan fod yn realistig ac yn onest ar yr un pryd o ran yr hyn y gallwn ei gyflawni.

Yn 2015, rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno adnodd cyswllt rhanbarthol er mwyn ein galluogi i weithio'n fwy effeithiol gyda chyflogwyr ac arweinwyr ym maes nyrsio a bydwreigiaeth ar lawr gwlad. Bydd hyn yn gwella ein gwaith ehangach fel cyfathrebu ac ymgysylltu a'r gwaith o gyflwyno proses ail-ddilysu. Dylai hefyd atgyfnerthu ein gallu i gasglu data ar risgiau, materion a thueddiadau er mwyn cefnogi ein gwaith ein hunain a'n cydweithrediad â rheoleiddwyr proffesiynol a rheoleiddwyr systemau eraill.

Byddwn yn parhau i ystyried pob agwedd ar ein gwaith er mwyn nodi meysydd lle y gellid sicrhau rhagor o arbedion effeithlonrwydd, gan gynnwys sicrhau ein bod yn cyflawni holl fuddiannau ein rhaglen gwella, er mwyn darparu'r gwasanaeth cost-effeithiol o ansawdd uchel y mae'r cyhoedd yn ei haeddu.